



Diweddariad Cymunedol

Hydref 2016



Yn y rhifyn hwn

- T1** Teithlyfrau cerdded newydd
- T2** Eco brosiect
Prosiect geogelcio
Blaenoriaethau Cronfa
Datblygu Cynaliadwy
- T3** Bygi Heini
Cryw Craggy
Gwirfoddolwyr ucheldir
- T4** Ysgol Goedwig yn
Llangatwg
Ysgolion Llysgennad
Ariannu 'chwarae teg'
- T5** Aberhonddu ym
Mrwydr Agincourt
Cynlluniau Canolfan i
Ymwelwyr
- T6** Newyddion Cadwraeth
- T7** Digwyddiadau Hydref
- T9** A-Y Rhestr
Cysylltiadau'r
Awdurdod

Helo a chroeso

i rifyn Hydref 2016 o'r Diweddariad Cymunedol gan
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau dal i fyny gyda gwaith, newyddion a straeon o bob cwr o'r Parc Cenedlaethol.

Os hoffech chi gael eich rhoi ar ein rhestr bostio neu gyfrannu at rifynnau yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy'r A-Y o wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.
Diolch yn fawr.

John Cook Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mwynhewch Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda'n teithlenni cerdded newydd

Mae prosiect 'Amgylchedd Ysbrydoledig' a redir gan dîm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol, wedi arwain at gynhyrchu cyfres newydd o deithlenni cerdded sydd wedi'u hanelu at grwpiau cymunedol - ond gall unrhyw un eu defnyddio.



Fe wnaeth y prosiect, partneriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyfoeth Naturiol Cymru, gefnogi arweinyddwyr grwpiau cymunedol a'u grwpiau i dreulio diwrnod yn y Parc Cenedlaethol, gan fwynhau'r awyr agored trwy amrywiaeth o wahanol weithgareddau, gan hynny yn helpu i wella eu hiechyd a'u lles.

Mae deg o deithlenni cerdded dwyieithog bellach wedi'u cynhyrchu sy'n rhoi cyfarwyddiadau manwl gyda mapiau ar gyfer amrywiaeth o deithiau cerdded â golygfeydd mewn gwahanol ardaloedd o'r Parc. Yn addas i bob gallu a diddordeb, maen nhw wedi'u graddio yn hawdd, yn gymedrol ac yn egniol ac yn amrywio yn eu pellter o 1 i 5 milltir. Mae rhai yn hygyrch iawn ac yn wastad, a rhai yn fwy egniol, ond yn werth yr ymdrech ychwanegol i weld y golygfeydd gwych sydd ar y brig.

Mae gwybodaeth fanwl ar barcio cyfagos, mynediad trafniadaeth gyhoeddus, toiledau a lluniaeth wedi'u cynnwys ym mhob teithlen, ynghyd â chysylltiadau

at wybodaeth bellach sydd ar gael ar wefannau eraill. Ceir awgrymiadau hyd yn oed ar gyfer gwahanol weithgareddau sy'n addas ar gyfer pob taith gerdded megis gwyllo adar, geogelcio neu sut i greu ffon gerdded!

Dywedodd arweinydd grŵp 'Links to Recovery' Lee Dennis: "Ers y prosiect 'Amgylchedd Ysbrydoledig' rydym wedi sylwi ar fwy o'n defnyddwyr gwasanaeth yn mynd allan trwy amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys gwirfoddoli, geogelcio a theithiau cerdded anffurfiol."

Mae'r teithlenni hyn ar gael i'w hargraffu o wefan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
<http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/teithiau-cerdded-amgylchedd-ysbrydoledig/>



Prosiect geogelcio yn annog grwpiau ieuenticid lleol i fynd o gwmpas

Mae prosiect Geogelcio, a ariennir gan Chwaraeon Cymru a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, yn ei ail flwyddyn ac wedi ymgysylltu â 283 o bobl 'anodd eu cyrraedd'.

Mae llawer o'r bobl ifanc hyn wedi'u heithrio o weithgareddau arferol oherwydd ymddygiad, cyfle neu anfantais. Mae 90 o arweinwyr a 15 o wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i helpu i alluogi i'r grwpiau ieuenticid fwrw ymlaen â gweithgareddau geogelcio. Mae llawer o'r arweinwyr sydd wedi'u hyfforddi o'r newydd bellach yn cynnal eu sesiynau geogelcio eu hunain. Mae gan Barc Gwledig Cwm Dâr ei lwybr geogelcio ei hun erbyn hyn. Cadwch olwg hefyd am lwybr newydd yn dechrau ym Mharc Taf Bargoed.

I gael golwg well ar yr hyn yr ydym yn ei wneud mae fideo ar gael hefyd:
https://www.youtube.com/watch?v=uPc_OawNueE&feature=youtu.be

Prosiect Eco MIND o fudd i grŵp lleol - a'r amgylchedd!

Mae prosiect Eco Mind Aberhonddu a'r Cylch yn galluogi i wirfoddolwyr gyfrannu i waith cadwraeth amgylcheddol gan gynnwys arolygon natur, clirio pyllau, rheoli planhigion goresgynnol a lleoli blychau adar ymhlith nifer o dasgau diddorol a phleserus eraill.

Rhedir y prosiect hwn mewn partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae gwirfoddolwyr o gangen leol elusen iechyd meddwl MIND, yn cynorthwyo wrth reoli gardd natur yng Nghanolfan i Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ac maen nhw hefyd yn cael cyfle i sicrhau hyfforddiant achrededig cydnabyddedig mewn sgiliau gwledig trwy gysiau a redir gan Dîm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol. Nid yn unig y mae hyn yn helpu i wella'r amgylchedd ond fe all gweithio yn yr awyr agored arwain at lawer o fuddion iechyd cadarnhaol megis gwella ffitrwydd a chwrrd â phobl o'r un anian. Dywedodd un gwirfoddolwr ar y prosiect:

'Mae'n rhoi strwythur imi, gwneud i mi ddefnyddio golau dydd a chodi o'r gwely. Mae'n sicrhau fy mod yn meithrin ac yn gofalu am rywbeth y tu hwnt i fy hun ac mae hynny'n golygu fy mod yn gofalu am fy hun yn well.'

Gwirfoddolwyr ar gwrs adnabod coed ym Mharc Gwledig Craig-y-nos. Hefyd yn y llun: Cydlynnydd Gwirfoddolwyr MIND Matt Sowerby a Ceri Bevan, Swyddog Cymunedau Cynaliadwy'r Parc Cenedlaethol



Os ydych chi'n grŵp ieuenticid yn Nhorfaen, Blaenau-Gwent, Bwrdeistref Merthyr neu Rhondda Cynon Taf a'ch bod yn dymuno ymgysylltu â'r prosiect anfonwch e-bost at: geocaching@beacons-mpa.gov.uk

Pobl ifanc yn geogelcio ar Fynydd Illtyd, ger Aberhonddu

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (GDC) Blaenoriaethau ar gyfer 2016/17

Mae'r GDC yn gronfa grantiau sydd wedi'i bwriadu i gefnogi prosiectau i ddatblygu a phrofi ffyrdd o gyflawni ffordd fwy cynaliadwy o fyw yn y Parc Cenedlaethol.

Yn 2016/2017 byddwn yn mynd ati'n weithredol i geisio'r mathau canlynol o brosiectau:-

Ynni – Creu ynni o ffynonellau adnewyddadwy ac arbed ynni, gyda'r ddau ohonynt yn arwain at ddefnyddio llai o garbon

Busnes – Hybu Datblygu Economaidd Gwledig

Treftadaeth Naturiol ac Adeiledig

Cydnorthedd cymunedol

Iechyd a llesiant

I gael rhagor o fanylion ar y blaenoriaethau a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, gweler gwefan yr Awdurdod: <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/>

Os oes gennych syniad am brosiect cysylltwch â'n swyddfa ni lle bydd Helen neu Ceri yn hapus i roi cymorth a chyngor datblygu.

helen.roderick@beacons-mpa.gov.uk neu ffoniwch 01874 620417

ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk neu ffoniwch 01874 620471



Gwirfoddolwyr Pontsticill yn paratoi ar gyfer casglu sbwriel. Mae'r prosiect adfywio pentref wedi'i gefnogi gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Gwirfoddolwyr Llwybr Ucheldir yn ffurfio partneriaeth newydd tair blynedd o hyd

Gydag ariannu gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy'r Parc Cenedlaethol, mae Gwirfoddolwyr Llwybr Ucheldir Bannau Brycheiniog wedi ffurfio partneriaeth newydd gyda Gwent Drug and Alcohol Services (GDAS) am y tair blynedd nesaf.

Fel rhan o'r prosiect, bydd pedwar aelod o GDAS ac aelod o staff yn ymuno â Gwirfoddolwyr Llwybr Ucheldir bob blwyddyn i gynnal gwaith cynnal a chadw hanfodol ar lwybr yr ucheldir. Yn ychwanegol byddant yn derbyn yr holl gyfleoedd arferol i ymgymryd â hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae 10 o wirfoddolwyr wedi derbyn achrediad cymeradwy gan Lantra wrth ddefnyddio torwyr prysgwydd yn ddiogel. Mae hyn wedi caniatáu i'r grŵp ehangu ar eu sgiliau ac ymgymryd â thasgau ychwanegol i gynorthwyo'r wardeiniaid. Yn fwy diweddar, mae 1.5 km o Ffordd y Bannau wedi'i glirio o redyn gan ddefnyddio torwyr prysgwydd ac offer llaw. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi derbyn hyfforddiant Llysgenhadon pwrpasol mewn daeareg, bioamrywiaeth a thwristiaeth i alluogi iddynt ateb cwestiynau ac ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd pan fyddant allan yn cynnal llwybrau.

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd aelodau GDAS a Gwirfoddolwyr Llwybr yr Ucheldir yn cael cynnig hyfforddiant pellach mewn daeareg, cymorth cyntaf a mordwyiaeth.

Bydd yr hyfforddiant yn cyfoethogi'r cyfraniad gwerthfawr y mae'r gwirfoddolwyr hyn eisoes yn ei wneud i gadwraeth amgylchedd yr ucheldir.



Gwirfoddolwyr Llwybr yr Ucheldir ar ôl hyfforddiant torri prysgwydd

Bygi Heini yn llwyddiant aruthrol!

Fe wnaeth rhifyn y gwanwyn o Ddiweddariad Cymunedol gyhoeddi lansiad gweithgaredd newydd sbon i famau a'u babanod o'r enw Bygi Heini.

Fe'i cynhelir mewn partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Freedom Leisure a'r fenter Cymunedau yn Gyntaf Cymoedd Gorllewinol, ac mae wedi profi'n boblogaidd iawn. Nod y prosiect yw annog mamau i fynd allan i'r awyr agored a chadw'n heini yn eu cymuned gan fynd â'u babi a'r bygi gyda hwy.

Dywedodd un cyfranogwr, Katie Wilkinson, "Gan fy mod yn fam i dri does gen i ddim amser i fynd i'r gampfa ac nid oes gen i unrhyw un i warchod, felly mae Bygi Heini wedi bod yn wych. Rydw i'n gallu mynd allan a chadw'n heini gyda fy mabi ac rwy'n gallu gwneud ymarfer corff a gwella fy ffitrwydd. Rwy'n gallu mynd â fy mhllant hŷn yn ystod y gwyliau ysgol ac maen nhw'n mwynhau hefyd. Mae wedi rhoi cyfle i mi hefyd i gwrdd â mamau eraill ac i ddysgu am deithiau cerdded a llwybrau newydd yn yr ardal leol." Cynhelir Bygi Heini bob dydd lau am 1.30pm, naill ai ym Mharc Gwledig Craig-y-nos neu o Ganolfan Chwaraeon Ystradgynlais. Cynhelir y sesiwn gan arweinydd grŵp cerdded a hyfforddwr ffitrwydd cymwys sydd wedi'i hyfforddi mewn ymarfer cyn ac ar ôl geni. Bob wythnos mae'r gweithgaredd yn cynnwys taith gerdded a nifer o ymarferion.



Am wybodaeth bellach, cysylltwch â thudalen Facebook SblashaSbri ble mae'r sesiwn yn cael ei hysbysebu. <https://www.facebook.com/Sblashasbri/?fref=ts>

Eleri Thomas o Awdurdod Parc Cenedlaethol (ail o'r dde) gyda rhai o'r mamau sy'n mynychu Bygi Heini.

Criw Craggy yn creu argraff ar Barc Gwledig Craig-y-nos

Sefydlwyd Criw Craggy neu Gyfeillion Parc Gwledig Craig-y-nos ym mis Ionawr 2016 gan grŵp o wirfoddolwyr yr Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd wedi bod yn gweithio ar y safle yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf.

Esbonia Eleanor Flaherty o Griw Craggy: "Yn ystod y cyfnod hwn rydym oll wedi datblygu angerdd dros hanes, diwylliant ac amgylchedd unigryw'r safle. Mae cynlluniau eisoes ar droed gan y Cyfeillion ar gyfer rhai prosiectau bioamrywiaeth byr dymor, gyda phlannu bylbiau, prosiectau blychau ystlmod ac adar i gynnwys y gymuned leol yn ddiweddarach eleni. Mae gennym gynlluniau eraill, mwy uchelgeisiol i ddatblygu ardaloedd i blant a theuluoedd, cynnal digwyddiadau celfyddydau a diwyllianol, i ymgymryd ag astudiaethau dichonolrwydd wrth gynhyrchu ynni gwyrdd, ynghyd â nifer o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Ian Penn, Warden y Parc Gwledig, i sicrhau bod ein holl brosiectau yn cyfoethogi ac yn ychwanegu at y gwaith sydd eisoes ar droed gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae'n bleser gennym ddweud ein bod ni eisoes wedi sicrhau ariannu gan Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog ar gyfer ein prosiectau bioamrywiaeth yr hydref, deunyddiau hyrwyddo ac ategolion ar gyfer y tractor newydd sy'n dod i Graig-y-nos. Rydym yn gwahodd pobl i gefnogi'r grŵp gyda chymaint neu gyn lleied o amser ag y gallant ei sbario.

Y ffordd orau o dderbyn y newyddion diweddaraf yw trwy ein tudalen Facebook <https://www.facebook.com/criwcraggy/> neu e-bost eleanorflaherty@hotmail.co.uk. Os hoffech chi gwrdd â ni, byddwn yn y Sioe Ceir Clasurol yn y Parc Gwledig ar 4 Medi a byddai'n dda eich gweld chi yno.

Criw Craggy gyda Warden Parc Gwledig Craig-y-nos Ian Penn (cefn ar y dde)



Cynllun 'Chwarae Teg' i ysgolion yn parhau am flwyddyn arall.

Mae ein cynllun 'Chwarae Teg' yn darparu ariannu i dalu am drafnidiaeth i ysgolion yn ardaloedd difreintiedig Cymru i ddod i gyrsiau addysg yn y Parc Cenedlaethol.

Gyda chostau gostyngol, mae'n galluogi i fwy o ddisgyblion ymuno â'n tîm Addysg a dysgu am y Parc Cenedlaethol, yr amgylchedd a hefyd elwa o fod yn yr awyr agored yn yr ardal arbennig hon.

Mae dros 300 o ddisgyblion wedi mwynhau ymweliad trwy'r cynllun hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Os oes gan eich ysgol dros 20% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, bydd e-bost yn cael ei hanfon i bob ysgol yn gynnar ym mis Medi. Mae'r ariannu wedi'i gyfyngu ac ar sail y cyntaf i'r felin.

Am ragor o wybodaeth am Wasanaeth Addysg yr Awdurdod ewch i: <http://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/>



Disgyblion yn mwynhau taith gerdded ger Pen y Fan.

Ysgol Goedwig yn boblogaidd iawn gyda phlant yn Llangatwg

Bellach mae gan ddisgyblion Ysgol Eglwys yng Nghymru Llangatwg gyfle i dreulio eu hamser mewn math gwahanol iawn o ysgol.

Cafodd Ysgol Goedwig yn y goedwig ffawydd gerllaw ei chreu gan ddau Warden dan Hyfforddiant o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - Richard Taylor a Sarah Bagley- a gyfarfu â'r plant yn yr ystafell ddosbarth awyr agored yn gynharach eleni.

Dywedodd Mrs Liz Thomas, athrawes yn ysgol gynradd Llangatwg, 'Mae'r ysgol eisoes yn defnyddio'r goedwig ar gyfer gweithgareddau dysgu awyr agored, ond roeddem yn awyddus iawn i sefydlu gofod pwrpasol ble gall plant eistedd i lawr mewn cylch i chwarae gemau ac ymgymryd â gweithgareddau. Mae Ysgolion Goedwig yn cynnig profiad dysgu gwyb ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion brofi'r byd naturiol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Richard a Sarah a roddodd o'u hamser i greu hyn ar ein cyfer; mae'r plant yn mwynhau bob eiliad o ddysgu yma yn y goedwig'.

Gall gwibdeithiau i'r Ysgol Goedwig gynnwys gweithgareddau megis adeiladu llochesi, gwaith coed, crefftau ac edrych ar y fflora a'r ffawna yn y goedwig ffawydd. Bydd y gofod bellach yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion a grwpiau cymunedol lleol eraill, megis grwpiau'r sgwotiaid.



Wardeiniaid dan hyfforddiant, Richard a Sarah gyda'r athrawes, Liz Thomas a'r dosbarth Derbyn.



Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol yn mynd o nerth i nerth

Mae cynllun 'Ysgol Llysgennad y Parc Cenedlaethol' yn helpu disgyblion i ddarganfod, mwynhau, deall a chadw eu hardal eu hunain a'r Parc Cenedlaethol ehangach.

Adrodda Hayley Sharp, Swyddog Addysg:

'Mae ein Hysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol yn parhau i wneud y mwyaf o'u hystafelloedd dosbarth awyr agored trwy dipio yn y pyllau, adeiladu cuddfannau a hela chwilod ynghyd ag archwilio ymhellach i mewn i goedwigoedd a mynyddoedd ein Parc Cenedlaethol. Mae mwy o ysgolion wedi cofrestru i ddod yn Ysgol Llysgennad ac fe ymddengys bod y diddordeb a'r momentwm yn tyfu! Yn yr hydref bydd cyfleoedd i athrawon ysgol fynychu sesiynau hyfforddi gyda'r hwyr i gael mwy o hyder wrth ddefnyddio'r awyr agored fel adnodd dysgu. Cadwch lygad!'



Os oes gan eich ysgol diddordeb yn y cynllun, gwiriwch y dudalen gwe <http://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/ysgolion-llysgennad-y-parc-cenedlaethol/>

I gysylltu â Hayley ffoniwch 01874 624437 neu e-bost enquiries@beacons-mpa.gov.uk

Disgyblion 'ysgol llysgennad' ar daith gerdded ger Aberhonddu.

Ein cynlluniau ar gyfer Canolfan i Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol (Canolfan Fynydd)

Ym mis Mehefin, fe gytnodd Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gynnig i sicrhau dyfodol Canolfan i Ymwelwyr boblogaidd y Parc Cenedlaethol yn Libanus, ger Aberhonddu.

Daeth y cynnig y cytunwyd arno gan weithgor Aelod/Swyddog a sefydlwyd mewn ymateb i doriadau sylweddol i'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cynllun yn golygu y bydd ymwelwyr yn parhau i fwynhau canolfan i ymwelwyr gyda thoiledau, maes parcio, caffi, siop dymhorol a phwynt gwybodaeth. Mae'r cynllun hwn yn cynnig model mwy masnachol i sicrhau dyfodol y Ganolfan.

Pan gyhoeddwyd y cynigion, dywedodd Andrew Fryer, Cadeirydd Twristiaeth Bannau Brycheiniog "Rydym yn cefnogi'r newidiadau hyn a fydd, yn ein barn ni, yn galluogi i Awdurdod y Parc Cenedlaethol barhau i ymroi i hyrwyddo'r ddarpariaeth dwristiaeth yn y Parc i'n hmwelwyr."

O'r 1af o Hydref bydd gwybodaeth ar gael o bwynt gwybodaeth ar lawr isaf CYPC. Bydd pwynt gwybodaeth/siop fach wedi ei staffio ar gael o wanwyn 2017 am frig y tymor. Ni fydd siop na phwynt gwyboath wedi ei staffio ar y llawr cyntaf dros y Gaeaf er fe fydd yr ystafelloedd te ar gael fel arfer. Yn ychwanegol, dros yr Hydref/Gaeaf bydd yr Awdurdod yn chwilio am bartner i redeg yr ystafelloedd te o Ebrill 2017.



© jamcreativestudios


Adrodd Hanes Aberhonddu ym Mrwydr Agincourt yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu

Mae hanes Aberhonddu ym mrwydr Agincourt wedi dod yn fyw yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu, ac mae'n coffáu'r cyfraniad pwysig wnaeth gwŷr Sir Frycheiniog at y frwydr enwog a ymladdwyd yn Ffrainc 600 mlynedd yn ôl. Drwy gyd-weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae dehongliad cyffrous newydd wedi ei greu – cewch hyd yn oed weld Rhith-Saethydd o Agincourt yno.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o brosiect ehangach Etifeddiaeth Agincourt 600 Cymru, gyda chymorth Cronfa Goffáu Agincourt 600, i gofio hanes gwŷr lleol fu'n ymladd yn y frwydr; ac i ddangos arwyddocâd y cyfraniad sylweddol wnaeth y rhain i hanes Agincourt.

Mae'r taflenni newydd sbon, a'r padlau-gwybodaeth llaw ar gael erbyn hyn yn yr Eglwys Gadeiriol, i ymwelwyr gael mynd ar daith eu hunain, a darganfod y straeon y tu ôl i'r mannau coffáu.

Meddai Suzanna Jones, Swyddog Dehongli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, "Chwaraeodd Aberhonddu ran allweddol ym Mrwydr Agincourt, ac mae hi'n un o wyth safle ar draws Sir Frycheiniog, Sir Fynwy a Fforest y Ddena, sy'n rhan o 'Daith Agincourt Cymru'. Roedden ni am ddathlu'r ffaith hon drwy adrodd yr hanesion i bobl leol ac ymwelwyr; ac roedden ni wrth ein bodd yn cael cyfle i ddehongli'r casgliad sydd yma'n barod yn yr Eglwys Gadeiriol. Bydd pawb wrth eu bodd yn cwrdd â'r saethydd, sy'n dod yn fyw drwy ipad – yn enwedig y bobl ifanc!"



Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-npa.gov.uk
neu ffoniwch 01874 620452

Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30 -12.00 yb a 1.30-3.00 yp yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu. Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chynghor am y Gronfa hon cysylltwch naill ai â

Helen Roderick
neu Ceri Bevan ar 01874 620471

Ebostiwch
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau grant 2016

- 31 Awst
- 2 Tachwedd

Dyfodol Newydd i Gadwraeth Bioamrywiaeth yng Nghymru

Mae Cymru yn arwain y ffordd yn y DU, trwy sefydlu deddfwriaeth sy'n ofynnol i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy ac integredig.

Ochr yn ochr ag amrywiaeth o bartneriaid bioamrywiaeth, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynllunio pa un yw'r ffordd orau i ailfeddwl ac adfywio'r hyn a oedd yn 'Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol' i fodloni'r gofynion a'r cyfleoedd newydd, ac i sicrhau ei fod yn symud ymlaen i ddathlu, diogelu a chyfoethogi bioamrywiaeth gyfoethog y mae'r Parc Cenedlaethol yn eu cefnogi.

Isod ceir dwy enghraifft yn unig o brosiectau a mentrau newydd sy'n cael eu harwain gan bartneriaid bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol ...

Taflen Newydd ar Weirgloddiau Cymru



Mae'r gweirgloddiau blodau gwyllt hyfryd ym Mharc Gwledig Craig-y nos yn ymddangos mewn taflen newydd ar weirgloddiau Cymru gan Plantlife Cymru.

Mae gweirgloddiau sy'n gyfoethog o ran eu blodau gwyllt yn gynefin sydd wedi dirywio yn ddramatig yn y DU yn ystod y 60 mlynedd ddiwethaf. Gobeithir y bydd y daflen ddwyieithog newydd yn helpu i annog pobl i ddangos diddordeb mewn gweirgloddiau, darganfod pam eu bod mor bwysig ac ymweld â'u gweirgloddiau lleol i'w harchwilio ymhellach.

I lawrlwytho'r daflen ewch i: <http://www.plantlife.org.uk/publications/welshmeadows>

Gweirgloddiau Craig-y-nos

Arolygon Gwyfynod Cliradenydd Cymreig

Mae gan y gwyfyn Cymreig eiconig hwn hanes diddorol. Cafodd ei ddarganfod ger Llangollen yn yr 1850au ond ni chafodd ei weld am dros 100 mlynedd, hyd nes ei ailddarganfod ger Dolgellau yn yr 1980au.

Mae bob amser yn brin. Yn fwy diweddar fe gafodd ei ddarganfod ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am y tro cyntaf. Mae arolygon parhaus gan Butterfly Conservation bellach wedi darganfod llond llaw o safleoedd - y cyfan yn rhan ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol a dyma'r safle mwyaf deheuol yn y DU sy'n hysbys ble mae'r Gwyfyn Cliradenydd wedi'i weld.

Gweler: <http://butterfly-conservation.org/1034-7180/welsh-clearwing.html>

Gwyfyn Cliradenydd Cymreig (N. Lowe)



Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Fideo-gynadledda
- Ystafell Aelodau
- Ystafell hyfforddi TG

Gwasanaeth Arlwyo ar gael
Am fanylion cysylltwch â'r
Dderbynfya 01874 624437
neu edrychwch ar
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Pabell Fawr
Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau,
ysgolion, elusennau a sefydliadau
dielw eraill o fewn y Parc
Cenedlaethol ddefnyddio'r Pabell
Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu
digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu,
cysylltwch â Ceri Bevan ar
01874 620471
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Gweddarllodiadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod
ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein
gweddarllodiadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarllodu/>

Digwyddiadau Diwedd Mis Awst-Mis Rhagfyr 2016

I weld rhestr estynedig o weithgareddau yn y Parc Cenedlaethol
ewch i: <http://www.breconbeacons.org/events>

Digwyddiadau yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Dydd Mawrth 23 Awst

Gweithdy Crochenwaith Take pART

Cewch eich ysbrydoli gan yr amgylchedd naturiol o'ch cwmpas i greu eich campwaith eich hun.

Addas i oedolion a phlant 5 oed a hŷn.

Plant dan 12 – cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi.

Cost: £6.00 y person. Tâl parcio hefyd yn gymwys. Archebu lle yn hanfodol. I ddarganfod mwy ac i archebu lle ffoniwch Ganolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ar 01874 623366. 10yb-1yp.

Dydd Mercher 24 Awst 2016

Gweithdy Lluniau Ffelt Take pART

Gwnewch eich ffelt eich hun ac yna crëwch ac addurnwch eich llun ffelt eich hun.

Addas i oedolion a phlant 5 oed a hŷn. Plant dan 12 - cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi. Manylion cost ac archebu lle fel uchod. 10yb-1yp.

Gŵyl y Banc dydd Sadwrn 27 – dydd Llun 29 Awst

Ffair Haf Bannau Brycheiniog

Hwyl i'r teulu, bwyd lleol, crefftau a gwaith celf.

Diwrnod allan gwych i'r teulu i gefnogi ein cynhyrchwyr lleol Cymreig.

Mynediad am ddim. £2 i barcio drwy'r dydd. 10yb-5yp.



Mae ein Canolfan Ymwelwyr a'r Parc Gwledig ar agor bob dydd o'r flwyddyn ac eithrio Dydd Nadolig. Mae mynediad am ddim ond codir tâl am barcio.

Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, ger Aberhonddu
LD3 8ER

- Gwybodaeth
- Ystafelloedd Te a Bwyty
- Siop anrhegion
- Toiledau
- Hurio Ystafelloedd
- Priodasau

Ffôn: 01874 623366
npvc@beacons-npa.gov.uk

Parc Gwledig Craig-y-nos

Pen-y-cae, Cwm Tawe SA9 1GL

- Ystafelloedd Te a Bwyty - Changing Seasons
Ffôn: 01639 731498
- Toiled i bobl anabl gyda lle i newid clwt y baban 24 awr
- Hurio ystafelloedd
- Gofod arddangos
- Canolfan grefft
- Stiwdio wydr
- Stiwdio a chysiau ffotograffiaeth

Ffôn: 01874 624437
enquiries@beacons-npa.gov.uk

Digwyddiadau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Gŵyl y Banc dydd Sadwrn 27 – dydd Llun 29 Awst

Arddangosfa Flynyddol Urdd Gwehyddion, Nyddwyr a Lliwyddion Tawe

Mynediad am ddim. Bydd costau parcio.
10yb - 5yp, Ystafell Hibbert.

Dydd Sul 4 Medi

Clasuron yn y Parc Gwledig

Bydd ceir clasurol a motobeics i'w gweld o 11yb tan 3yp a bydd yn gorffen gyda pharêd lle bydd y ceir i gyd yn ymddangos. Caiff ymwelwyr eu diddanu gyda cherddoriaeth glasurol a theatr gerddorol glasurol ar risiau'r Pafliwn a bydd band pres yn chwarae drwy'r prynhawn.
Mynediad am ddim (parcio £4.00)

Dydd Sadwrn 1 – Dydd Sul 2 Hydref

Dydd Sadwrn 29 – Dydd Sul 30 Hydref

Dydd Sadwrn 26 – Dydd Sul 27 Tachwedd

Crefftau yn y Parc ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Ffair grefftau leol yn Ystafell Hibbert gyda "Crefftau'r Cwm"

Mynediad am ddim. Bydd costau parcio. 10yb - 3.30yp.

Dydd Sadwrn 3 Rhagfyr

Ffair Wydr a Chrefftau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Mynediad am ddim. Bydd costau parcio. 10yb - 4yp.

Dydd Sadwrn 17 Rhagfyr

Ffair Nadolig ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Mynediad am ddim. Bydd costau parcio. 10yb - 4yp.

Digwyddiadau eraill

Dydd Sadwrn 1 Hydref

Gŵyl Fwyd Bannau Brycheiniog

Bwyd a chynhyrchion lleol. Mynediad am ddim

Neuadd y Farchnad, Aberhonddu

10yb - 5yp.

Dydd Sadwrn 26 – Dydd Sul 27 Tachwedd

Gŵyl Fwyd Aef y Gelli Gandryll

Maes Parcio Memorial, Y Gelli Gandryll

Bwyd a chynhyrchion lleol. Mynediad am ddim.

10yb - 5yp.





A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Richard Mears	richard.mears@beacons-npa.gov.uk	01874 620425
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir	Julian Atkins	jean packer@beacons-npa.gov.uk	01874 620469
Cyfathrebu a'r wasg	Jo Maurice Clarissa Price	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cyfarwyddwr Cynllunio	Christopher Morgan	danielle.french@beacons-npa.gov.uk	01874 620428
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Matt Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	01874 620465
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Fiona Mead/Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Jackie Thomas	jacqueline.thomas@beacons-npa.gov.uk	01874 620451

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Gallwch drydar â ni ar @croesobannaub neu â Thîm ein Wardeniaid ar @BBParkWarden



Dilynwch ni drwy Facebook www.facebook.com/bannaubrycheiniog



Gweler ein Youtube Channel Videos www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA



www.instagram.com/breconbeacons

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	01874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
PrifWeithredwr	John Cook	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk	01874 620429
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	paul.funnell@beacons-npa.gov.uk	01874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne Rosie Burton Janet Poole	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk rosie.burton@beacons-npa.gov.uk janet.poole@beacons-npa.gov.uk	01874 620418 01874 620413 01874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard-tyler@beacons-npa.gov.uk	01874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510

